# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 11 Tachwedd 2014** |
| Amser: | **08.30 - 09.10** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

Aelodau'r Pwyllgor:

**Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**
**Paul Davies**
**Jane Hutt**
**Elin Jones**
**Aled Roberts**

Staff y Pwyllgor:

**Aled Elwyn Jones (Clerc)**

Eraill yn bresennol:

**David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**
**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**
**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**
**Craig Stephenson**
**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad llafar am Murco i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am ddatblygiadau ers ei datganiad yr wythnos diwethaf.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai cyfnodau pleidleisio dydd Mawrth a dydd Mercher yn cael eu cynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes ar y dyddiau hynny.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Bydd dadl Cyfnod 1 ar Fil Cynhwysiant Addysg Ariannol (Cymru) Bethan Jenkins yn cael ei chynnal ar 26 Tachwedd 2014. Mae'r ddadl Plaid Cymru a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 26 Tachwedd wedi cael ei symud i'r wythnos ganlynol.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 3 Rhagfyr 2014**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Datganiad gan Kirsty Williams: Cyflwyno Bil arfaethedig Aelod - Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) (30 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ddulliau Llywodraeth Cymru o hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi. (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Bil Cymwysterau Cymru

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil Cymwysterau (Cymru) at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'w ystyried yng Nghyfnod 1.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddent yn gohirio'r penderfyniad ar amserlen y Bil tan yr wythnos nesaf, gan roi amser i ymgynghori â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

4.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caethwasiaeth Fodern

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Caethwasiaeth Fodern.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn dydd Iau 4 Rhagfyr 2014, fel y gellir trafod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 9 Rhagfyr 2014.

4.3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol i'r Pwyllgor Menter a Busnes er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol erbyn 8 Ionawr 2015 er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Ionawr 2015.

4.4 Gorchymyn Adran 109

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Gorchymyn arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â Rheolau Sefydlog 25.7 hyd 25.11. Os bydd y Gorchymyn arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor yn cael ei gytuno, cyflwynir gwelliant i'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) er mwyn iddo gynnwys darpariaeth sy'n diwygio adran 79 yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Materion Deddfwriaethol a Chyfansoddiadol i'w hystyried. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r ddau Bwyllgor adrodd ar y Gorchymyn arfaethedig erbyn dydd Mercher 3 Rhagfyr fel y gellir trafod y Gorchymyn drafft yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 20 Ionawr 2015.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes i’r Llywodraeth sicrhau bod y Gwelliant drafft i Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar gael cyn gynted ag y bo modd i lywio gwaith craffu y pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig.

Cytunodd Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i drafod cais y Rheolwyr Busnes â’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.

4.5 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i’w ystyried yng Nghyfnod 1.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddent yn gohirio penderfyniad ar amserlen y Bil tan yr wythnos nesaf, gan roi amser i ymgynghori â'r Pwyllgor.

4.6 Llythyr oddi wrth Darren Millar AC at y Llywydd: Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr gan Darren Millar AC yn hysbysu'r Llywydd nad oedd ar hyn o bryd mewn sefyllfa i gynnig bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Cytunodd y Pwyllgor y bydd yn ystyried amserlen newydd ar gyfer Cyfnod 2 unwaith y cytunir ar yr egwyddorion cyffredinol.

## 5 Pwyllgorau

5.1 Cynnig i sefydlu Pwyllgor Cynulliad

5.2 Cynnig i sefydlu Pwyllgor Cynulliad: Penderfyniadau'r Pwyllgor Busnes

Ar gais y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod y papurau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ac Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes ymhellach â Grwpiau Plaid, gan ddychwelyd at y mater yr wythnos nesaf.

5.3 Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gyfleu barn y Pwyllgor Busnes.

5.4 Y Pwyllgor Cyllid: Cais i ymweld â Chaeredin

Derbyniodd y Rheolwyr Busnes gais y Pwyllgor Cyllid i ymweld â Senedd yr Alban i gwrdd â'r Pwyllgor Cyllid a Swyddogion y Llywodraeth yng Nghaeredin ddydd Iau 4 Rhagfyr 2014, sy'n golygu y bydd rhaid i Aelodau adael y Cynulliad am 17.00 ar y dydd Mercher.